**COFNODION LGH-01-03 (min)**

**Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI**

**Dyddiad: DYDD MERCHER 15 IONAWR 2002**

**Amser: 09.30am - 12.30pm**

**Lleoliad: YSTAFELL BWYLLGORA 2, ADEILAD Y CYNULLIAD CENEDLAETHOL**

**Yn Bresennol:**

*Aelodau*

| | |
|---|---|
| Gwenda Thomas (Cadeirydd) | Castell-nedd |
| Peter Black | Gorllewin De Cymru |
| William Graham | Dwyrain De Cymru |
| Edwina Hart (Gweinidog) (hyd 10.30am) | Gwyr |
| Pauline Jarman | Canol De Cymru |
| Peter Law | Blaenau Gwent |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| Tom Middlehurst | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |

*Yn bresennol*

| | |
|---|---|
| Kate Cassidy | Moderneiddio Llywodraeth Leol |
| Rob Hay | Refeniw Cyllid Llywodraeth Leol |
| Frank Cuthbert | Moderneiddio Llywodraeth Leol |

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Shan Wilkinson | Llefarydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar Faterion Cymdeithasol ac Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Colin Everett | Cyfarwyddwr Syniad |
| Joe Howsam | Cyfarwyddwr Materion Cymdeithasol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a chynrychiolydd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol. |

*Yr Ysgrifenyddiaeth*

| | |
|---|---|
| Roger Chaffey | Y Clerc |
| Claire Griffiths | Y Dirprwy Glerc |
| Peter Jones (eitem 4) | Cwnsler Pwyllgorau'r Cynulliad |

**9.30am hyd 9.35am**

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, eilyddion a datganiadau o fuddiant**

1. Croesawodd y Cadeirydd y Pwyllgor a'r cyhoedd.
2. Dywedodd y Cadeirydd y byddent yn ystyried yr adolygiad polisi ar gynyddu gallu y tymor hwn fel rhan o'r broses o adfywio cymunedau. Mae angen cwblhau'r adolygiad erbyn diwedd Chwefror gan fod yr adroddiad i gael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn ar 18 Mawrth. Ar ôl yr wythnos hon, felly, bach iawn o gyfle fydd yna i gasglu tystiolaeth a gwahoddwyd yr Aelodau i roi gwybod i'r Clerc os oeddent yn dymuno ymchwilio i unrhyw feysydd eraill fel rhan o'r adolygiad. Awgrymodd y dylai'r Pwyllgor ddefnyddio ei ddiwrnod ychwanegol ar 6 Chwefror i ystyried drafft cyntaf yr adroddiad. Cytunodd y Pwyllgor i hyn a gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at y Dirprwy Lywydd.

1.3 Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau am ddatganiadau o fuddiant, yn unol â Rheol Sefydlog

4.5.

Ni chafwyd datganiadau.

**9.35am hyd 10.00am**

**Eitem 2: Adroddiad Llafar y Gweinidog**

2.1 Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor:

- Iddi ddatgelu ei chynlluniau ar gyfer ailbrisio ac ailfandio Treth y Cyngor ar 19 Rhagfyr 2002 ac mai'r dyddiad cau ar gyfer ymatebion fydd 29 Ionawr. Ychwanegodd ei bod wedi ysgrifennu at Aelodau, yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor ar 27 Tachwedd, i ddweud pa ieithoedd lleiafrifol ethnig y bydd y daflen gyhoeddusrwydd yn cael ei chyhoeddi ynddynt.
- Ar 16 Hydref 2002, dywedodd wrth y Pwyllgor ei bod wedi lansio Cynllun Gweithredu Tai Cymru ar gyfer Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig. Dywedodd fod nifer y gweithwyr llywodraeth leol a oedd yno yn siomedig. Ychwanegodd ei bod wedi cyfarfod ag arweinwyr Gwasanaethau Gweithredol awdurdod lleol Cymru a Chyfarwyddwyr Tai ar 14 Ionawr er mwyn trafod y cynllun, a daeth llawer i'r cyfarfod hwnnw. Hefyd, mae Llywodraeth y Cynulliad yn cynnal Cynhadledd Tai i Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig ar 23 Ionawr sydd wedi'i hanelu at landlordiaid cymdeithasol sy'n llunio strategaethau tai i bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig ac at denantiaid allweddol. Ychwanegodd y Gweinidog mai un o brif amcanion y Cynllun yw mynd i'r afael ag aflonyddu hiliol a'i bod yn disgwyl i landlordiaid cymdeithasol ddelio â digwyddiadau o'r fath a bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi darparu £34,000 i landlordiaid cymdeithasol Cymru gyfan allu cysylltu â RaceActionNet yn 2003. Cyfeiriadur cenedlaethol ar-lein yw hwn ar gyfer gweithredu yn erbyn aflonyddu hiliol. Mae'n tynnu ynghyd y sawl sy'n llunio polisïau a'r sawl sy'n eu rhoi ar waith er mwyn rhannu arfer da, nodi problemau a chynnig atebion. Bydd yr arian hefyd yn help i sefydlu cronfa ddatblygu er budd holl aelodau'r rhwydwaith.
- O ran yr adolygiad Cymorth Prynu, dywedodd fod swyddogion wedi trafod y cynllun eto yr wythnos diwethaf o ran y ffordd y mae'n gweithredu yng Ngwynedd ac o ran ei effeithiolrwydd. (Gwynedd yw'r achos prawf). Disgwylir i'r adolygiad gael ei gwblhau erbyn diwedd Mawrth.
- Dywedodd y Gweinidog fod y Cynulliad Cenedlaethol, fel y gwyr yr Aelodau, wedi cymeradwyo'r Gorchymyn i ychwanegu at nifer yr ardaloedd gwledig lle y gall fod cyfyngiadau ar werthu dan yr Hawl i Gael Meddiant ac ar ailwerthu hen eiddo Hawl i Brynu, yn y Cyfarfod Llawn ar 14 Ionawr. Ychwanegodd ei bod, yn nadl y Cyfarfod Llawn, wedi gofyn a ddylid gostwng y disgownt a ganiateir dan y cynllun Hawl i Brynu o £24,000 i £16,000. Gofynnodd y Gweinidog i'r Aelodau a oeddent am weld copi o'r llythyr ymgynghori er gwybodaeth.
- O ran Setliad yr Heddlu, dywedodd fod manylion y setliad dros dro i heddluoedd yng Nghymru wedi'u rhoi i Gadeiryddion Awdurdodau'r Heddlu ar 19 Rhagfyr 2002. Fel yr

oedd y Pwyllgor yn ymwybodol, cafodd y cyhoeddiad ei ohirio gan fod y Gweinidog wedi gofyn i'r Swyddfa Gartref am fanylion y gymhariaeth ariannol rhwng heddluoedd Cymru a heddluoedd Lloegr. Dywedodd ei bod wedi sicrhau y byddai'r Swyddfa Gartref yn darparu £5.5 miliwn yn rhagor i wneud yn siwr na fyddai cynnydd unrhyw awdurdodau yng Nghymru yn llai na'r cynnydd sylfaenol o 3% a gyhoeddwyd ar gyfer heddluoedd Lloegr. Mae swyddogion mewn trafodaethau o hyd gyda'r Swyddfa Gartref ynghylch arian ychwanegol i Dde Cymru. Dywedodd y Gweinidog ei bod wedi ei gwneud yn glir i'r Swyddfa Gartref, gan fod ganddynt gyfrifoldeb o ran polisi gwasanaeth yr heddlu yng Nghymru a Lloegr, na ddylid trin heddluoedd Cymru yn llai ffafriol na'r rhai yn Lloegr. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn cyfarfod â Chadeiryddion awdurdodau heddlu yn ddiweddarach heddiw i drafod eu cyllidebau arfaethedig a'u heffaith ar braeseptau treth y cyngor.

- Dywedodd ei bod ar hyn o bryd wrthi'n ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar setliad dros dro'r llywodraeth leol. Bydd y setliad terfynol yn cael ei gyhoeddi ar 20 Ionawr a'i drafod yn y Cyfarfod Llawn ar 28 Ionawr.
- Dywedodd ei bod, yn dilyn ei sylwadau i'r Ysgrifennydd Gwladol yn cyfleu barn y Pwyllgor ar *Your Guide to Post Offices*, wedi cael ateb yn dweud ei fod wedi ysgrifennu at Andrew Smith AS a Patricia Hewitt AS. Roedd hefyd wedi gofyn a fyddai modd i'r Adran Gwaith a Phensiynau a'r Adran Diwydiant a Masnach barhau i gydweithio â swyddogion y Cynulliad i baratoi'r trefniadau newydd i dalu budd-daliadau a phensiynau. Dywedodd mai'r dyddiad cau ar gyfer y cylch ceisiadau cyntaf i Gronfa Ddatblygu'r Swyddfeydd Post yw 31 Ionawr.
- Yn olaf, dywedodd ei bod, yn dilyn ei llythyr at Chris Leslie AS ynghylch y posibilrwydd o ddatganoli pwer i'r Cynulliad ar reoliadau adeiladu, wedi cael ateb ac y bydd yn parhau mewn cysylltiad ag ef ynghylch y mater.

2. Gwnaeth yr aelodau'r pwyntiau canlynol:

- Yn gyffredinol, roedd yr Aelodau yn croesawu'r bwriad i ailbrisio ac ailfandio treth y cyngor, ond yn pwysleisio bod cyfathrebu da yn hanfodol i sicrhau nad oedd pobl yn camddeall canlyniad yr adolygiad. Croesawyd y cyfle i weld y taflenni cyhoeddusrwydd arfaethedig.
- Croesawyd y Cynllun Gweithredu Tai i Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig. Tynnwyd sylw at y cynnydd yn nifer y troseddau casineb.
- Nododd yr Aelodau pryd roedd disgwyl i ganlyniadau'r achos prawf Cymorth Prynu fod ar gael. Trafodwyd problemau tai fforddiadwy mewn ardaloedd trefol yn ogystal ag yn yr ardaloedd gwledig traddodiadol. Roeddent yn teimlo ei bod yn bwysig bod awdurdodau lleol yn cadw stoc rhesymol o dai cymdeithasol.
- O ran yr adolygiad o'r cynllun Hawl i Brynu, gofynnwyd i'r Gweinidog ystyried gostwng nifer y blynyddoedd cymhwysol yn hytrach na'r disgownt. Trafodwyd hefyd y ffaith nad oedd tai cymdeithasol yn cael eu defnyddio ddigon.
- Roedd yr Aelodau'n falch bod y Gweinidog wedi bod yn gadarn gyda'r Swyddfa Gartref ynghylch setliad yr heddlu. Gofynnwyd iddi a fyddai modd iddi roi awgrym beth fyddai'r

praeseptau yn y cyfarfod nesaf. Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn cydymdeimlo â theulu'r heddwas a laddwyd ac â'r rheini a anafwyd ym Manceinion ddoe. Roedd y Pwyllgor yn cyd-fynd â hyn.

- Gofynnwyd i'r Gweinidog a fyddai canlyniad anghydfod cyflog yr ymladdwyr tân yn effeithio ar y Setliad Llywodraeth Leol.
- Nododd yr Aelodau'r gwaith lobïo a wnaed gan y Gweinidog a'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyflwyno *Your Guide to Post Offices.* Nodwyd fod etholwyr rhai Aelodau yn anhapus ar ôl newid i dalu'u pensiynau/budd-daliadau yn syth i'w cyfrif banc, yn enwedig yr henoed a/neu'r anabl gan roedd yn rhaid iddynt roi eu rhif PIN i'w gofalwr er mwyn cael at eu harian. Roedd yr Aelodau yn teimlo bod hyn yn agwedd arall anfoddhaol ar y cynllun newydd.
- Gofynnodd y Cadeirydd a oedd Cronfa Ddatblygu'r Swyddfeydd Post yn caniatáu i swyddfeydd nad oedd mewn ward Cymunedau yn Gyntaf ond a oedd yn gwasanaethu wardiau o'r fath fod yn gymwys i gael cymorth.

2. Ymatebodd y Gweinidog fel a ganlyn:

- Byddai'n well ganddi gael barn pobl ar gynnwys y taflenni cyhoeddusrwydd nawr, gan mai er gwybodaeth yn unig y byddai'n dosbarthu'r taflenni.
- Dywedodd y Gweinidog y byddai'n dosbarthu manylion y Gynhadledd ar Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig ar 23 Ionawr. Byddai croeso i Aelodau fynd iddi. Ychwanegodd y byddai'n cynnwys eitem ar gasineb hiliol yn ei hadroddiad ysgrifenedig nesaf.
- Dywedodd y Gweinidog y byddai'n rhannu canlyniadau'r adolygiad Cymorth Prynu gyda'r Pwyllgor pan fyddant ar gael.
- Cytunodd i ysgrifennu at Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog am ragor o wybodaeth ar flynyddoedd cymhwysol Hawl i Brynu ac y byddai'n gwneud copi o lythyr ymgynghori 'Right to Buy: Proposed change to the Maximum Discount Limit' a anfonwyd at Aelodau'r Pwyllgor.
- Dywedodd y byddai'n rhoi adroddiadau cyson i'r Pwyllgor ar unrhyw drafodaethau eraill a gâi ar setliad yr heddlu. Dywedodd fod £3m ychwanegol wedi'i neilltuo i'r setliad llywodraeth leol i dalu am bensiynau athrawon a bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi cael gwybod. Dywedodd ei bod yn ymwybodol bod y Dirprwy Brif Weinidog wedi sôn - a chofnodwyd hyn gan Hansard - pe bai angen rhagor o adnoddau ar gyfer setliad yr ymladdwyr tân, y byddai adrannau San Steffan yn eu darparu.
- Dywedodd y byddai'n dosbarthu'r rheolau ynglyn â'r trefniadau i wneud cais ar gyfer Cronfa Ddatblygu'r Swyddfeydd Post.
- Dywedodd y byddai'n parhau i ystyried y posibilrwydd o drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros Reoliadau Adeiladu i'r Cynulliad gyda Chris Leslie AS.

**Pwyntiau Gweithredu**

- Y Gweinidog i ddosbarthu copïau o'r daflen ailbrisio i'r Aelodau er gwybodaeth
- Y Gweinidog i ddosbarthu manylion y gynhadledd ar Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig

sydd ar y gweill. Mae croeso i Aelodau fynd iddi

- Y Gweinidog i gynnwys rhan ar gasineb hiliol yn ei hadroddiad ysgrifenedig nesaf
- Y Gweinidog i rannu canlyniadau'r adolygiad Cymorth Prynu gyda'r Pwyllgor
- Y Gweinidog i roi'r newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor maes o law ar unrhyw drafodaethau eraill ar setliad yr heddlu
- Y Gweinidog i ysgrifennu at Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog am ragor o wybodaeth ar flynyddoedd cymhwysol Hawl i Brynu a gwneud copi o lythyr ymgynghori 'Right to Buy: Proposed change to the Maximum Discount Limit' a anfonwyd at Aelodau'r Pwyllgor
- Y Gweinidog i ystyried y posibilrwydd o drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros Reoliadau Adeiladu i'r Cynulliad gyda Chris Leslie AS

**<u>10.00am hyd 10.05am</u>**

**Eitem 3: Trefniadau Etholiadol Llywodraeth Leol yng Nghymru**

**LGH-01-03(p.1)**

3.1 Cyn dechrau ar yr eitem hon, dywedodd y Cadeirydd ei bod yn teimlo ei bod yn briodol cadarnhau cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr 2002 (**LGH-18-02(cof)).** Cytunodd yr Aelodau a chytunwyd ar gofnodion y cyfarfod.

3.2 Dywedodd y Cadeirydd i fanylion y cynnig a roddwyd gerbron gan Blaid Cymru gael eu dosbarthu i bob Aelod ar 17 Rhagfyr ac na dderbyniwyd unrhyw welliannau. Ychwanegodd na fyddai'r mater yn cael ei drafod mwyach gan fod yr Aelodau wedi mynegi eu barn yn glir yn y cyfarfod diwethaf (11 Rhagfyr) ac aeth ymlaen i gynnal pleidlais ar gynnig Janet Ryder:

*Mae'r Pwyllgor yn derbyn argymhellion 'Adroddiad y Comisiwn ar Drefniadau Etholiadol Llywodraeth Leol yng Nghymru' ac yn gofyn i'r Gweinidog gyflwyno amserlen ar gyfer eu gweithredu.*

3. Cofnodwyd y pleidleisiau canlynol:

| Aelod | Pleidlais |
|---|---|
| Gwenda Thomas (Cadeirydd) | Yn erbyn |
| Peter Black | Ymatal |
| William Graham | Yn erbyn |
| Edwina Hart (Gweinidog) | Yn erbyn |
| Pauline Jarman | O blaid |
| Peter Law | Yn erbyn |
| Dai Lloyd | O blaid |
| Tom Middlehurst | Yn erbyn |
| Janet Ryder | O blaid |

Gwrthodwyd y cynnig.

**10.05am hyd 10.15am**

**Eitem 4: Y diweddaraf ar y Mesur Llywodraeth Leol**

**LGH-01-03(p.2) Atodiad**

4.1 Cyflwynodd y Gweinidog y papur gan ychwanegu y byddai Don Touhig AS yn cynrychioli Swyddfa Cymru ac yn cyfleu barn y Cynulliad Cenedlaethol yn ystod camau pwyllgora'r Mesur. Roedd gwelliant wedi'i gynnig yn y Pwyllgor i atal rheolaeth weithredol Whitehall ar frigadau tân. Yn y dyfodol, awdurdodau tân lleol fydd yn penderfynu ar faterion gweithredol. Roedd y Llywodraeth hefyd wedi cyhoeddi y byddai Papur Gwyn Tân yn cael ei gyhoeddi yn y Gwanwyn a dywedodd y Gweinidog y byddai'n rhoi'r diweddaraf ar hyn yn gyson i'r Pwyllgor.

4.2 Gwnaeth yr Aelodau'r sylwadau canlynol:

- Roedd yr Aelodau yn cytuno bod llawer o gymalau galluogi yn y Mesur i Gymru. Roedd y Gweinidog wedi lobïo'n galed i'w cynnwys ac roeddent yn gwerthfawrogi ei gwaith ar hyn.
- Codwyd y ffaith nad oedd trethi busnes wedi'u cynnwys a gofynnwyd i'r Gweinidog a

fyddai modd gofyn am gymalau galluogi ynghylch trethi busnes.

- Gofynnwyd am eglurhad ar allu awdurdodau lleol i gynnal pleidleisiau lleol.
- Gofynnwyd i'r Gweinidog a fyddai'n newid ei meddwl ynghylch y trefniadau a gyhoeddwyd ar gyfer yr etholiadau sydd ar ddod.
- Gofynnwyd iddi ynghylch systemau benthyg y Prudential gan gynnwys y goblygiadau o ran tai.

3. Ymatebodd y Gweinidog fel a ganlyn:

- Dywedodd ei bod wedi lobïo'n galed am yn hir ond ei bod wedi colli'r ddadl ynghylch trethi busnes. Ychwanegodd y byddai ffiniau'r Ardaloedd Gwella Busnes yn hyblyg a'i bod wedi sefydlu gweithgor i drafod sut i'w sefydlu.
- Cadarnhaodd fod gan awdurdodau lleol yr hawl i gynnal pleidleisiau lleol ar unrhyw fater ond nad oedd yn rheidrwydd cynnal pleidlais na glynu at ganlyniad unrhyw bleidlais o'r fath.
- Cadarnhaodd nad oedd yn bwriadu newid unrhyw drefniadau a gyhoeddwyd eisoes ar gyfer etholiadau arfaethedig Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r etholiadau lleol ac etholiadau'r UE a fydd yn cael eu cynnal ym Mehefin 2004.
- Dywedodd y byddai'n dosbarthu nodyn cynhwysfawr ar systemau benthyg y Prudential.

3. Tynnodd y Cadeirydd sylw'r Pwyllgor at gylchlythyr diweddar, a oedd yn nodi bod y Gwasanaeth Prawf yng Nghymru yn ad-drefnu ac yn symud ei swyddfeydd. Teimlwyd bod hwn yn fater difrifol y gallai'r Pwyllgor fod am ymchwilio iddo. Yn yr un modd, tynnwyd sylw at y cynigion i drosglwyddo cyfrifoldebau trwyddedu o'r Ynadon i awdurdodau lleol a'r effaith aruthrol y byddai hyn yn ei chael ar adnoddau.
4. Roedd y Gweinidog yn rhannu'r pryderon a chytunodd i'w cynnwys yn ei hadroddiad ysgrifenedig nesaf.
5. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Clerc drefnu bod y Gwasanaeth Prawf yn esbonio eu cynigion ad-drefnu cyn gynted ag y bo modd.

**Pwyntiau Gweithredu**

- Y Gweinidog i ddosbarthu nodyn ar systemau benthyg y Prudential, gan gynnwys y

goblygiadau o ran tai

- Y Gweinidog i gynnwys nodyn ar effeithiau'r Mesur Trwyddedu newydd ar Awdurdodau Lleol yn ei hadroddiad ysgrifenedig nesaf
- Y Gweinidog i gynnwys nodyn ar oblygiadau bwriad y Gwasanaethau Prawf i ad-drefnu yn ei hadroddiad ysgrifenedig nesaf
- Yr Ysgrifenyddiaeth i drefnu bod y Gwasanaeth Prawf yn esbonio eu cynlluniau ad-drefnu cyn gynted ag y bo modd

**<u>10.15am hyd 10.35pm</u>**

**Eitem 5: Adolygiad o'r Polisi ar Adfywio Cymunedol - Cynyddu Gallu: Ystyried Materion sy’n Dod i'r Amlwg ac Argymhellion Cychwynnol**

**LGH-01-03(p.3) Atodiad 1, Atodiad 2**

5.1 Dywedodd y Cadeirydd nad oedd yr Athro Adamson yn gallu mynd i'r cyfarfod ond y byddai'r Clerc yn anfon unrhyw sylwadau ato. Gwahoddodd bobl i wneud sylwadau ar y materion sy'n codi ac ar yr argymhellion cychwynnol.

5.2 Gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Mae rhifau'r argymhellion yn cyfeirio at y pwyntiau a godwyd yn ystod y gwahanol sesiynau a gynhaliwyd i gasglu tystiolaeth. Mae angen gweld sut y byddant yn cyfrannu at y Cynlluniau Adfywio Cymunedol ar ôl y ddadl yn y Cyfarfod Llawn a gynhelir fis Mawrth.
- Daeth nifer o themâu i'r amlwg dro ar ôl tro yn ystod yr adolygiad a'u codi gan sefydliadau; er enghraifft, y prinder gweithwyr cymwys i wneud gwaith adfywio cymunedol.
- Teimlwyd bod angen corff i gadw golwg ar hyfforddiant ac argymhellion 11, 12 ac 13, a hynny i sicrhau bod safon dderbyniol yn cael ei chyrraedd. Pwysleisiwyd hyn eto yn Argymhelliad 6 gyda'r posibilrwydd o wahodd ELWa i ymchwilio i'r gwaith o achredu dysgu cyffredin.
- O ran argymhelliad 10, teimlwyd y gellid ymchwilio i raglen fwrsari. Dywedodd y Cadeirydd nad oedd y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes na Chadeirydd y Pwyllgor hwnnw wedi gallu mynd i gyfarfod heddiw yn anffodus, ond eu bod yn cefnogi cynllun bwrsari. Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn teimlo bod manteision cynllun o'r fath yn hanfodol i helpu pobl mewn ardaloedd difreintiedig a bod angen eu hystyried o'r dechrau'n deg.

- Croesawyd y syniad o sefydlu Fforwm Adfywio Cymunedol (argymhelliad 16).
- Roedd marc cwestiwn ynghylch brawddeg olaf y paragraff ar allu sefydliadol (argymhelliad 6). Roedd teimlad bod hyn yn annheg gan fod y rhan fwyaf o aelodau etholedig yn mentro i fywyd cyhoeddus er mwyn gwasanaethu eu cymuned. Awgrymodd y Cadeirydd y dylid aileirio'r frawddeg hon.
- Yn yr un modd, roedd yr ail baragraff yn argymhelliad 7 yn codi pryderon nad yw pob sefydliad yn y sector gwirfoddol yn aelod o'r grwp ambarél perthnasol. Teimlwyd bod partneriaethau yn ffordd fwy priodol i gynrychioli pobl yn deg. Nododd y Cadeirydd y byddai'r geiriad hwn yn cael ei adolygu.
- Teimlwyd bod angen dull gweithredu, bellach, ar yr adolygiad a bod angen i bob sefydliad dan sylw ddod at ei gilydd er mwyn gweithredu'r agenda. Byddai hon yn dasg ar gyfer y Cynulliad newydd.
- Cydnabuwyd bod llawer sy'n ymwneud â gwaith cymunedol heb unrhyw gymwysterau ffurfiol ac nad oeddent am aros yn y maes hwnnw. Ond roedd y bobl hyn yn dod â gwybodaeth a sgiliau aruthrol i'r rhaglen.

5.3 Dywedodd y Cadeirydd y byddai tystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr ymweliad â Dulyn yn cael ei chynnwys yn y drafft nesaf y byddai'r Pwyllgor yn ei drafod ar 6 Chwefror.

**Pwynt Gweithredu**

- Y Clerc i gyfleu barn y Pwyllgor i'r Athro Adamson a pharatoi drafft diwygiedig ar gyfer y cyfarfod ychwanegol ar 6 Tachwedd

**10.35am hyd 10.55am**

Cytunodd y Pwyllgor i gael egwyl am 20 munud.

**10.55am hyd 12.18pm**

**Eitem 6: Cyflwyniad gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar fod yn Rhieni Corfforaethol**

6.1 Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Shan Wilkinson, llefarydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar Faterion Cymdeithasol ac Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Joe Howsam, Cyfarwyddwr Materion Cymdeithasol, Cyngor Bwrdeistref Sirol

Caerffili a chynrychiolydd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol a Colin Everett, Cyfarwyddwr Syniad i'r Pwyllgor. Dywedodd fod y Pwyllgor wedi bod yn bryderus ynghylch y ffordd y mae awdurdodau lleol, yn sgil Adroddiad Waterhouse, yn trefnu eu rôl fel rhieni corfforaethol (yn benodol, argymhellion 8, 9, 58 a 59) a bod y Gweinidog wedi cynnal arolwg o bob awdurdod yng Nghymru i weld sut yr oeddent yn ysgwyddo'r rôl honno. Gwahoddodd y Cynghorydd Wilkinson i ddechrau'r cyflwyniad.

6.2 Gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Dywedodd y Cynghorydd Wilkinson y byddai'n siarad o safbwynt aelod etholedig. Cyfeiriodd at 1999 pan ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Gwladol ar y pryd (Alun Michael) at bob Cynghorydd yng Nghymru ynghylch Plant yn Gyntaf. Dywedodd fod y llythyr wedi cael effaith aruthrol ar Aelodau ac fe'i cymerwyd o ddifrif, ac roedd hefyd yn sioc wrth i bobl sylweddoli maint eu cyfrifoldebau personol am blant. Achosodd y llythyr dipyn o gynnwrf mewn awdurdodau lleol hefyd wrth i Aelodau gwestiynu'u rolau a'u cyfrifoldebau o un pwyllgor i'r llall (e.e. Addysg a Iechyd)
- Teimlwyd bod craffu yn bwysig er mwyn i awdurdodau lleol allu bod yn Rhieni Corfforaethol effeithiol. Anfantais y pwyllgor craffu newydd yw ei fod yn fach o ran strwythur.
- Gallai pwy sy'n cael y rôl graffu ddibynnu ar hap wleidyddol. Mae'n rhaid bod yn wyliadwrus er mwyn sicrhau bod pawb o fewn llywodraeth leol sydd â chyfrifoldebau dros Blant sy'n Derbyn Gofal yn ymwybodol o hyn ac yn cyflawni eu rôl.
- Roedd y berthynas dda rhwng y Gweinidog a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi'i gwneud yn bosib symud oddi wrth systemau'r gorffennol, a gâi eu rheoli drwy argyfyngau. Erbyn hyn mae awdurdodau lleol yn tueddu i allu cynllunio'n well ac edrych am ganlyniadau yn hytrach nag ymateb i argyfwng.

- Credir bod partneriaethau yn ffordd werthfawr i drafod meysydd sy'n creu problemau, dod o hyd i atebion a defnyddio gwybodaeth i sicrhau bod Plant sy'n Derbyn Gofal yn cael y gofal gorau posib gan awdurdodau lleol, a hynny at y safonau cydnabyddedig. Cynhaliwyd cyfarfodydd yng Ngogledd Ddwyrain Cymru i swyddogion gael clywed barn plant. Roedd hyn yn her ac yn brofiad emosiynol, ond yn ei sgil gwnaed gwaith da.

- Mae gofal maeth, er ei fod yn well na gofal preswyl disgybledig, yn gallu achosi anawsterau gan nad yw Aelodau a swyddogion yn cael cymaint o ymwneud â'r plant ag yr hoffent.
- Cydnabuwyd bod llawer i'w wneud o hyd i wella pethau ac roeddent yn bles bod awdurdodau lleol yn datblygu rheolau newydd. Rhaid cofio mai pobl yw plant, nid pethau.

6.3 Rhoddodd Joe Howsam ei gyflwyniad gan edrych ar y maes o safbwynt Cymdeithas

Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae copi o'r cyflwyniad yn Atodiad 1.

6.4 Rhoddodd Colin Everett ei farn o safbwynt Syniad:

- Mae hyfforddi awdurdod i fod yn Rhiant Corfforaethol yn her fawr ac yn gymhleth iawn. Cynigiwyd hyfforddiant i aelodau etholedig ac awdurdodau lleol.
- Mae awdurdodau lleol wedi dod ar draws problemau gyda'r term 'Corfforaethol', gan nad oes unrhyw swyddogaethau penodol ond bod materion trawsbynciol ar draws nifer o bortffolios.
- Mewn cyrsiau hyfforddi cychwynnol, darganfuwyd cryn anwybodaeth/diffyg ymwybyddiaeth ynghylch rôl a chyfrifoldebau bod yn Rhieni Corfforaethol. Nodau cychwynnol Syniad oedd disgrifio'r rolau y disgwylir i aelodau etholedig eu cyflawni a chynnig cymorth.
- Roedd hyfforddiant yn tynnu sylw at feysydd risg ac yn cynnig ffyrdd o'u rheoli.
- Nod genedlaethol yw bydd pob awdurdod lleol yn cyflwyno hunan-asesiad a fydd, gobeithio, yn fwy cyfarwyddol.
- Mae angen cofio bod llawer o Aelodau yn gymharol newydd i'r rôl ac ar y pegwn arall mae nifer fawr o Aelodau etholedig yn hen gyfarwydd â'r gweithdrefnau blaenorol.

6.5 Gwnaeth y Cadeirydd y sylwadau canlynol:

- Mae agweddau wedi newid yn sylweddol dros y 15 mlynedd diwethaf tuag at sut orau i ofalu am Blant sy'n Derbyn Gofal.
- Mae'n hanfodol cadw cysondeb, nid dim ond mewn awdurdodau lleol unigol ond hefyd ledled pob un o 22 awdurdod Cymru.
- Nid yw'r Ddeddf Plant yn cael ei chymryd ddigon o ddifrif gan lawer o sefydliadau o ran bod yn rhieni corfforaethol. Mae'n bwysig bod pob corff dan sylw yn trafod ac yn ceisio nodi anghenion.
- Efallai y gellid defnyddio cylchoedd cyllideb awdurdodau lleol i ddangos sut y mae awdurdodau unigol yn bwriadu sicrhau y caiff pob problem sy'n ymwneud â lleihau costau rhieni corfforaethol eu datrys.
- Rhaid i bawb, o'r Cynulliad i awdurdodau lleol sicrhau, drwy gyfrwng Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, bod cysylltiadau a chyfathrebu yn cael eu sefydlu a'u cynnal. Rhaid wrth gydweithio.
- A yw pwyllgorau craffu yn gallu dewis pa bwnc y maent am graffu arno?

6.6 Cafwyd trafodaeth fywiog i ddilyn. Dyma'r prif bwyntiau:

- Roedd yr Aelodau i gyd yn unfryd yn eu gwerthfawrogiad o waith aruthrol staff yr adrannau gwasanaethau cymdeithasol. Yn rhy aml, roedd methiannau a thrasiedïau yn cael sylw yn y wasg ond, oherwydd natur gyfrinachol y gwaith, nid oedd modd dathlu'r llwyddiannau niferus, ac roedd hyn yn ddiffyg.

- Mae angen datblygu'n ddi-dor a chofio bod angen hyfforddiant perthnasol ar bob cynghorydd.
- Mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru ddod â'i holl bolisïau ar rôl a gwaith rhieni corfforaethol ynghyd er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf.
- Sut mae cyrsiau hyfforddi Syniad yn cael eu darparu? A yw Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn monitro faint o bobl sy'n manteisio arnynt?
- Mae'n anffodus bod nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal wedi codi. Teimlwyd y dylai awdurdodau lleol geisio nodi pa blant sy'n agored i niwed a chynnig y cymorth iddynt yn gynharach er mwyn gostwng nifer y plant yn y categori hwn.
- Nodwyd cynnydd yn nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal tra bo'r gyfradd geni wedi gostwng.
- Mae'n drasig na ellir cysuro'r plant hyn, sy'n agored i niwed, yn gorfforol oherwydd cyfyngiadau cyfreithiol.
- Mae'r ffordd y mae awdurdodau lleol wedi mynd ati i fod yn Rhieni Corfforaethol yn gysur.

6.7 Mewn ymateb dywedodd y cyflwynwyr:

- Nid ar gyfer y Plant sy'n Derbyn Gofal yn unig y mae Rhieni Corfforaethol ond hefyd ar gyfer y plant hynny nad yw'r system wedi eu cydnabod.
- Dylid symud oddi wrth y duedd i ymateb i broblemau a dylid bod yn fwy rhagweithiol a cheisio rhwystro plant rhag gorfod dibynnu ar y system.
- Mae Pwyllgorau Craffu yn newydd iawn ac maent yn gweithio'n galed i berswadio awdurdodau lleol i ymgymryd â thasgau. Mae angen cryn dipyn o waith yn y maes hwn er mwyn gwneud y pwyllgorau yn effeithiol.
- Mae meincnodi yn bwysig, nid ar draws Cymru yn unig ond o fewn awdurdodau unigol.
- Mae Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru yn gweithio'n galed ac yn cydweithio'n dda â'r awdurdodau lleol ac yn ogystal ag ymgymryd ag arolygiadau, mae'n archwilio arferion da.
- Teimlwyd nad yw pawb yn Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydweithio â'i gilydd ac nad yw'n glir faint o ymwneud sydd rhyngddynt. Roeddent yn gobeithio y deuai hyn yn gliriach drwy greu Byrddau Iechyd Lleol.
- Mae cyrsiau hyfforddi Syniad wedi'u darparu'n unigol i awdurdodau ac i nifer o awdurdodau gyda'i gilydd. Byddent yn ysgrifennu gyda manylion faint a ymatebodd.

6.8 Diolchodd y Cadeirydd i'r cyflwynwyr am y cyflwyniadau rhagorol.

Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor

Ionawr 2003